



Cwrs Byr Ysgrifennu Creadigol Lefel 2 (Rhan-Amser)

Ydych chi wrth eich bodd yn ysgrifennu? Awydd dod yn awdur proffesiynol, neu ddilyn cwrs sy'n caniatáu ichi ymarfer eich sgiliau ysgrifennu? Mae'r cyrsiau newydd a chyffrous hyn yn cynnig y cyfle unigryw hwnnw i chi. Byddwch yn astudio ac yn ymarfer ysgrifennu ar draws pob math a genre: stori fer ffuglen; y nofel; ysgrifennu sgriptiau; ffeithiol: hunangofiant a barddoniaeth – pob prif ffurf. Byddwn hefyd yn eich cyflwyno i syniadau am sut i fynd ati i gyhoeddi eich gwaith ac yn gwahodd cyfres o awduron proffesiynol i ddod i siarad â chi am eu gwaith a'u profiadau fel ysgrifennwyr.

Bydd y cwrs Lefel 2 yn rhedeg am 12 wythnos rhwng Medi a Rhagfyr, gydag opsiwn i barhau i'r cwrs Lefel 3 sy'n rhedeg rhwng mis Ionawr a mis Mawrth.

Mae gan bawb stori i'w hadrodd, boed hynny ar ffurf nofel, sgript neu gerdd!

Y cwrs hwn yw eich cyfle i adrodd eich stori, go iawn neu ddychmygol, a darganfod eich llais ysgrifennu a'r ffurf orau y gellir ei chlywed. Cyflwynir y Cwrs trwy ddarlithoedd a gweithdai ysgrifennu cefnogol lle cewch gyfle i rannu'ch gwaith a chael adborth gwerthfawr i'ch helpu i ddatblygu eich ysgrifennu. Fe'ch anogir i gadw dyddiadur darllen ac ysgrifennu i fapio'ch datblygiad fel ysgrifennwr.

Asesir y cwrs trwy unedau Agored Cymru a chyflwyno portffolios ysgrifennu a sylwebaethau myfyriol sy'n esbonio'r broses yr aethoch drwyddi o syniadau cychwynnol, drafftio a fersiynau terfynol. Gallwch chi gyflawni Lefel 3 neu 2 o'ch cyflwyniadau, fodd bynnag, nid yw hyn yn orfodol os ydych chi am fynychu dim ond er mwynhad mawr a gwella a datblygu eich sgiliau ysgrifennu hefyd.

Gofynion Mynediad

Dim

Rhagolygon Gyrfa

Gradd ysgrifennu creadigol, newyddiaduraeth, ysgrifennu sgriptiau, ysgrifennu proffesiynol (arall) mewn unrhyw genre.



GRŴP COLEGAU **NPTC** GROUP OF COLLEGES

Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

Asesiad

Asesir y cwrs trwy unedau Agored Cymru a chyflwyno portffolios ysgrifennu a sylwebaethau myfyriol sy'n esbonio'r broses yr aethoch drwyddi o syniadau cychwynnol, drafftio a fersiynau terfynol. Gallwch chi gyflawni Lefel 3 neu 2 o'ch cyflwyniadau, fodd bynnag, nid yw hyn yn orfodol os ydych chi am fynychu dim ond er mwynhad mawr a gwella a datblygu eich sgiliau ysgrifennu hefyd.

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS

12W

business@nptcgroup.ac.uk | www.nptcgroup.ac.uk/business

 [nptc_business](https://twitter.com/nptc_business)

 [nptcbusiness](https://www.facebook.com/nptcbusiness)

 [business-nptcgroup](https://www.linkedin.com/company/business-nptcgroup)